OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 743 (Cy.78)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Mawrth 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *14 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Ebrill 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt (**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Ebrill 2008.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**3**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Symiau y mae eu hangen at anghenion personol

**2.** Y swm y mae awdurdod lleol yn rhagdybio y bydd ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**4**) yw £21.38 yr wythnos.

(**1**) 1948 p.29. Gweler adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i gael y diffiniadau o "the minister" a "prescribed" yn y drefn honno ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S. 1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) O.S. 1992/2977 fel y'i diwygiwyd gan gyfres o offerynnau dilynol.

(**4**) 1948 p.29.

**Dirymu**

**3.** Mae rheoliadau 2, 3, 4, 5 a 6(2) o Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007(**5**) drwy hyn wedi'u dirymu.

**Diwygio rheoliad 28A o'r Prif Reoliadau**

**4.** Ym mharagraff (2) o reoliad 28A o'r Prif Reoliadau (cyfrifo incwm tariff o gyfalaf — Cymru) yn lle'r ffigur " £17,250" rhodder y ffigur "£19,000" yn y ddau le y mae'n ymddangos.

**Diwygio Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau**

**5.** Ym mharagraff 28H—

(a) yn is-baragraffau (1) a (2) yn lle'r ffigur "£5.25" rhodder y ffigur "£5.45" ym mhob lle y mae'n ymddangos; a

(b) yn is-baragraffau (3) a (4) yn lle'r ffigur "£7.85" rhodder y ffigur "£8.15" ym mhob lle y mae'n ymddangos.

*Gwenda Thomas*
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

12 Mawrth 2008

(**5**) O.S. 2007/1041.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r swm wythnosol y mae awdurdodau lleol i ragdybio, yn niffyg amgylchiadau arbennig, y bydd ar breswylwyr, sydd mewn llety a drefnwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("y Ddeddf"), ei angen at eu hanghenion personol. O 7 Ebrill 2008 ymlaen, rhagdybir y bydd ar bob preswylydd o'r fath angen £21.38 yr wythnos.

Yn ail, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 ("y Prif Reoliadau").

Mae'r Prif Reoliadau'n penderfynu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn asesu gallu person i dalu am y llety a drefnwyd ar ei gyfer o dan y Ddeddf.

Mae'r diwygiadau yn darparu ar gyfer cynnydd yn y terfyn cyfalaf isaf a chynnydd yn y swm o gredyd cynilion sydd i'w ddiystyru.